# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 4

GWEITHREDU CWRICWLWM: EITHRIADAU

### 38 Gwaith datblygu ac arbrofion

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan yr adran hon er mwyn ei gwneud yn bosibl gwneud gwaith datblygu neu gynnal arbrofion.

(2) Caniateir rhoi cyfarwyddyd mewn perthynas—

- (a) ag ysgol a bennir yn y cyfarwyddyd;
- (b) ag ysgolion o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd;
- (c) ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Rhaid rhoi cyfarwyddyd a roddir mewn perthynas ag ysgol—

- (a) i bennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol, a
- (b) i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol (oni bai bod yr ysgol yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir).

(4) Caiff cyfarwyddyd a roddir mewn perthynas ag ysgol, am gyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd—

- (a) datgymhwyso adrannau 27, 28, 29 a 30, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mewn perthynas â'r ysgol;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 38 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) darparu bod adrannau 27, 28, 29 a 30, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, yn gymwys mewn perthynas â'r ysgol gyda'r addasiadau a bennir yn y cyfarwyddyd.

(5) Caiff cyfarwyddyd a roddir mewn perthynas ag ysgol hefyd ei gwneud yn ofynnol—

(a) i bennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol, a

(b) i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol (oni bai bod yr ysgol yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir),

adrodd i Weinidogion Cymru am unrhyw faterion a bennir yn y cyfarwyddyd ar adegau neu ysbeidiau a bennir yn y cyfarwyddyd.

(6) Rhaid rhoi cyfarwyddyd a roddir mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir—

(a) i ddarparwr yr addysg, a

(b) i'r awdurdod lleol sy'n sicrhau'r addysg.

(7) Caiff cyfarwyddyd a roddir mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, am gyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd—

(a) datgymhwyso adrannau 34, 35 a 36, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, mewn perthynas â'r addysg honno;

(b) darparu bod adrannau 34, 35 a 36, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, yn gymwys mewn perthynas â'r addysg honno gyda'r addasiadau a bennir yn y cyfarwyddyd.

(8) Caiff cyfarwyddyd a roddir mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir hefyd ei gwneud yn ofynnol—

(a) i ddarparwr yr addysg, a

(b) i'r awdurdod lleol sy'n sicrhau'r addysg,

adrodd i Weinidogion Cymru am unrhyw faterion a bennir yn y cyfarwyddyd ar adegau neu ysbeidiau a bennir yn y cyfarwyddyd.

(9) Rhaid i berson y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan yr adran hon gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 38 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 38 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(c), **Atod.**

**I3** A. 38 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(c)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 38 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 38 coming into force by S.I. 2022/652 art. 7(c)
– s. 38 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(a)
– s. 38 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(a)